Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**RHEOLWR LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

**RHIF Y SWYDD: 502742**

**37 AWR YR WYTHNOS**

**GRADD 13: £40,221 - £41,418**

**CYTUNDEB CYFNOD PENODOL AM 18 MISOEDD**

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn Adran Perfformiad Gwasanaethau a Chyfathrebiadau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX, ar gyfer rôl Swyddog Gwybodaeth a Chymorth.

Bydd deiliad y swydd yn rhoi cyfarwyddyd, cymorth a chyngor i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a chydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GPDR) Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA), Rheoliadau Preifatrwydd ac Electronig (PECR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhoi cyngor i'r sefydliad ar faterion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth yn effeithiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gadw a gwaredu cofnodion, rhannu gwybodaeth a datgelu gwybodaeth. SYLWCH: Mae'r swydd hon yn ymgorffori rôl Swyddog Diogelu Data. Ar gyfer y rôl hon, byddwch chi'n yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a byddwch hefyd yn Berson Cyswllt o ran unrhyw ohebu â'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys rheoli ein tîm Llywodraethu Gwybodaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus felly yn gyfrifol am gyflawni'r holl ddyletswyddau rheoli llinell sy'n ymwneud â'r tîm, gan gynnwys cynnal Adolygiadau Datblygu Perfformiad, rheoli perfformiad, rheoli gweithgareddau i ddatrys materion gweithredol a dydd i ddydd a gweithredu fel mentor a phwynt cyswllt cyntaf ar gyfer staff. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n gydweithredol â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n ofynnol.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. I weld y buddion o weithio gyda ni, ymwelwch â: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/buddion/

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad llwyddiannus gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ganol dydd, 18/06/2024.** Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/ Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd. Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG